# GRUFFUDD, RHISIART (Rhisiart Gruffudd ap Huw ?) (fl. c. 1569), bardd, a brodor o Fôn.

**Enw:** Rhisiart Gruffudd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

Nid oes dim o hanes ei fywyd ar gael, ond ceir peth o'i waith mewn llawysgrifau. Cynnwys ddau englyn (B.M. Add. MS. 14898 (42b); Mostyn MS. 129 (324); cywydd i ofyn cymod Syr Rhisiart Bwlclai o Fôn a' i ail wraig, Annes, yn Mostyn MS. 145 (490) - cyhuddwyd hi o roi gwenwyn i'w g r; gweler Angharad Llwyd, *History of Anglesey*, 143); a chywydd i ofyn cymod rhwng Syr Rhisiart Bwlclai a Wiliam Lewys o Fôn (Mostyn MS. 144 (508)). Nid yw'n sicr ai efe yw'r Rhisiart Gruffudd ap Huw y ceir ei farddoniaeth yn Llanstephan MS 49 (93), N.L.W. MSS. 5283 (51, 122), 9166 (251).

## Awdur

**Ray Looker**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu